




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Arweiniad i Wasanaethau Crwner





Mae'r llawlyfr hwn wedi'i roi i chi oherwydd bod rhywun sy'n agos atoch wedi marw ac mae eu marwolaeth wedi'i ryportio i'r crwner. O dan y gyfraith rhaid i rai mathau o farwolaeth gael eu hysbysu i grwner. Mae llawer o bobl yn ei chael yn ddefnyddiol cael pethau ar ddu a gwyn yn ogystal â derbyn gwybodaeth wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Cofiwch ofyn gymaint o gwestiynau ag y mynnwch i staff y crwner.

Bydd yr wybodaeth hon hefyd o ddefnydd i chi os cewch eich galw fel tyst mewn cwest neu os oes gennych ddiddordeb yn y broses grwner.

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i gyhoeddi o dan adran 42 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Cynnig arweiniad y mae ac nid yw'n ymdrin â phob sefyllfa a allai godi.

Cofiwch, yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd cyfreithiol, y gelwir rhywun a fu farw'n berson ymadawedig. Dyma'r enw a ddefnyddir yn y llawlyfr hwn hefyd. Mae crwneriaid a'u staff yn deall bod y person a fu farw'n unigolyn unigryw.



# CYNNWYS

<b>ADRAN 1</b>	<b>1</b>
1. Safonau cyffredinol y gallwch eu disgwyl yn ystod ymchwiliad crwner	1
1.1 Swyddfa'r crwner	1
1.2 Eich rôl chi	2
<b>ADRAN 2</b>	<b>3</b>
2. Trosolwg ar grwneriaid ac ymchwiliadau	3
2.1 Beth yw crwner?	3
2.2 Beth mae crwneriaid yn ei wneud?	3
2.3 Beth yw ymchwiliad crwner?	3
2.4 Beth yw swyddog crwner?	4
2.5 Pwy sy'n talu am wasanaeth y crwner lleol?	4
<b>ADRAN 3</b>	<b>5</b>
3. Dechrau ymchwiliad	5
3.1 A yw pob marwolaeth yn cael ei ryportio i grwner?	5
3.2 Pryd mae marwolaeth yn cael ei ryportio i grwner?	5
3.3 Beth mae crwner yn ei wneud pan fydd marwolaeth yn cael ei ryportio?	6
3.4 Gweld y corff	6
3.5 Pryd allwch chi gofrestru'r farwolaeth?	6
<b>ADRAN 4</b>	<b>8</b>
4. Yr archwiliad post-mortem	8
4.1 Beth yw archwiliad post-mortem?	8
<b>ADRAN 5</b>	<b>10</b>
5. Ar ôl yr archwiliad post-mortem	10
5.1 Adroddiad yr archwiliad post-mortem	10
5.2 Beth sy'n digwydd ar ôl yr archwiliad post-mortem?	10
<b>ADRAN 6</b>	<b>12</b>
6. Rhyddhau'r corff i'w gladdu a gweinyddu'r ystâd	12
6.1 Beth sy'n digwydd i'r corff ar ôl yr archwiliad post-mortem os yw'r crwner yn penderfynu parhau gyda'r ymchwiliad?	12

- 6.2 Beth sy'n digwydd gyda gweinyddu ystâd yr ymadawedig os  
yw'r crwner yn parhau gydag ymchwiliad ar ôl archwiliad post-  
mortem? 12
- 6.3 Beth sy'n digwydd os wyf eisiau mynd â chorff dramor? 13

## **ADRAN 7** **14**

- 7. Organau a meinwe** **14**
- 7.1 A fydd organau'n cael eu cadw ar ôl archwiliad post-mortem y  
crwner? 14

## **ADRAN 8** **15**

- 8. Y cwest** **15**
- 8.1 Beth yw cwest? 15
- 8.2 Pryd fydd y cwest yn digwydd? 15
- 8.3 Agor a gohirio cwest 16
- 8.4 Beth yw adolygiad cyn-cwest? 16
- 8.5 Pwy sy'n cael mynychu cwest? 17
- 8.6 A fydd angen i mi siarad yn y cwest? 17
- 8.7 Pwy sy'n penderfynu pa dystion i'w galw? 18
- 8.8 Oes raid i dyst fynychu'r cwest? 18
- 8.9 Pwy sy'n cael holi'r tystion? 18
- 8.10 Oes yna reithgor mewn cwest bob tro? 19
- 8.11 Beth mae'r rheithgor yn ei wneud? 19
- 8.12 Oes angen cyfreithiwr arnaf? 19
- 8.13 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael? 20
- 8.14 Fydd y cwest yn cael ei ryportio yn y wasg? 21

## **ADRAN 9** **23**

- 9. Ar ddiwedd y cwest** **23**
- 9.1 Casgliadau'r cwest – penderfyniadau a darganfyddiadau 23
- 9.2 Beth os gellir atal marwolaethau yn y dyfodol? 24
- 9.3 Achosion sifil 24

## **ADRAN 10** **25**

- 10 Ymchwiliadau lle gallai'r broses fod yn wahanol** **25**
- 10.1 Pan fydd ymchwiliad yn cael ei drosglwyddo i grwner gwahanol? 25
- 10.2 Marwolaeth dramor 25

10.3	Unigolynél y lluoedd arfog sy'n marw dramor	26
10.4	Marwolaeth plentyn	26
10.5	Pan fydd ymchwiliad troseddol i farwolaeth	26
10.6	Marwolaeth yn y carchar neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth	27
<b>ADRAN 11</b>		<b>28</b>
11.	<b>Adborth, herio penderfyniad y crwner a chwynion</b>	<b>28</b>
11.1	Adborth	28
11.2	Sut i herio penderfyniad y crwner neu ganlyniad cwest	28
11.3	Cymorth cyfreithiol i herio	28
11.4	Cwyno am ymddygiad crwner	29
11.5	Cwyno am safon y gwasanaeth a gawsoch	29
11.6	Cwyno am batholegydd sy'n cyflawni archwiliad post-mortem	30
<b>ADRAN 12</b>		<b>31</b>
12.	<b>Monitro safonau gwasanaeth y crwner</b>	<b>31</b>
12.1	Y Prif Grwner	31
<b>ADRAN 13</b>		<b>32</b>
13.	<b>Cael mwy o wybodaeth a chymorth</b>	<b>32</b>
13.1	Sut a phryd alla i gael mwy o wybodaeth am farwolaeth y unigolyn a fu'n annwyl i mi?	32
13.2	Beth am gofnodion meddygol?	32
13.3	O ble alla i gael mwy o wybodaeth gyffredinol am ymchwiliadau crwner?	33
13.4	Pa gymorth alla i ei gael yn ystod ymchwiliad?	33
13.5	Beth am fudiadau sy'n rhoi cymorth mewn profedigaeth?	34
<b>ADRAN 14</b>		<b>35</b>
14.	<b>Geirfa</b>	<b>35</b>
<b>ADRAN 15</b>		<b>39</b>
15.	<b>Eich nodiadau</b>	<b>39</b>





# ADRAN 1

## 1. Safonau cyffredinol y gallwch eu disgwyl yn ystod ymchwiliad crwner

### 1.1 Swyddfa'r crwner

Bydd swyddfa'r crwner:

- yn egluro rôl y crwner ac yn ateb eich cwestiynau am ymchwiliadau gan y crwner;
- yn rhoi manylion cyswllt y swyddfa i chi, h.y. unigolyn penodol a'i rif ffôn ef neu hi neu gyfeiriad e-bost (efallai y byddwch eisiau nodi hyn yn adran 15 y llawlyfr hwn);
- yn eich helpu i ddeall beth achosodd y farwolaeth;
- yn rhoi gwybod i chi beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau;
- yn ystyried eich barn a'ch disgwyliadau, lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys dewisiadau'r teulu a'r gymuned, traddodiadau a gofynion crefyddol yn ymwneud â galaru, archwiliadau post-mortem ac angladdau;
- yn darparu amgylchedd croesawus a diogel ac yn eich trin yn deg, yn barchus a sensitif;
- yn ymddwyn gyda chydymdeimlad a heb ragfarn tuag at yr ymadawedig a beth achosodd iddynt farw;
- yn trin plant a phobl ifanc sy'n rhan o ymchwiliad mewn ffordd briodol i'w hoed, mewn cydweithrediad â'r oedolyn / oedolion sy'n gyfrifol am eu gofal;
- yn gwneud addasiadau rhesymol, lle bo hynny'n bosibl, i wneud pethau'n haws i chi os oes gennych anabledd (gan gynnwys anabledd dysgu);
- yn eich helpu i ddod o hyd i gymorth pellach lle bo angen;
- yn ystod ymchwiliad hir, ac oni chytunwyd fel arall gyda chi, yn cysylltu gyda chi bob tri mis o leiaf i'ch diweddarar ar gynydd yr achos, ac i egluro unrhyw oedi;

- yn egluro, lle bo hynny'n berthnasol, pam fod y crwner wedi penderfynu peidio â chymryd camau pellach mewn achos.

Ni all swyddfa'r crwner roi unrhyw gyngor cyfreithiol i chi.

## 1.2 Eich rôl chi

Mae eich rôl yn ymchwiliad y crwner yn bwysig iawn ac mae gennych gyfrifoldebau penodol. Dylech:

- gydweithredu'n llawn gyda swyddfa'r crwner a darparu'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad yn brydlon;
- hysbysu swyddfa'r crwner o unrhyw bryderon am, neu rywbeth sydd efallai'n eich poeni am y farwolaeth;
- trin y crwner a'i swyddogion ef neu hi, a staff eraill, gyda pharch;
- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, enwebu un unigolyn fel 'y berthynas agosaf' i gyfathrebu gyda swyddfa'r crwner. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon a chywir;
- hysbysu swyddfa'r crwner o unrhyw newid mewn amgylchiadau, fel cyfeiriad neu rif cyswllt, fel y medrant gysylltu'n ddi-oed gyda chi;
- peidio â rhannu gwybodaeth fydd swyddfa'r crwner yn ei rhoi i chi os cewch wybod ei bod yn gyfrinachol;
- hysbysu swyddfa'r crwner cyn gynted ag y gallwch o unrhyw anghenion penodol sydd gennych ar gyfer y cwest, e.e. anabledd, neu os yw Saesneg yn ail iaith i chi, fel y medrant gymryd camau rhesymol.

Mae'r safonau gwasanaeth penodol y gallwch eu disgwyl yn ystod gwahanol gamau ymchwiliad crwner wedi eu rhoi mewn blychau 'Safonau gwasanaeth y gallwch eu disgwyl' drwy'r ddogfen gyfan.

# ADRAN 2

## 2. Trosolwg ar grwneriaid ac ymchwiliadau

### 2.1 Beth yw crwner?

Daliwr swydd farnwrol annibynnol yw crwner, a benodir gan awdurdod lleol (Cyngor) yn ardal y Crwner. Mae rhai crwneriaid yn gyfrifol am fwy nag un awdurdod lleol. Fel arfer, cyfreithwyr yw crwneriaid ond maent weithiau'n feddygon hefyd. Mae crwneriaid yn gweithio o fewn fframwaith cyfraith a basiwyd gan y Senedd. Y Prif Grwner yw pennaeth gwasanaeth y crwner ac ef / hi sy'n rhoi arweiniad neu ganllawiau ar safonau ac ymarfer.

### 2.2 Beth mae crwneriaid yn ei wneud?

Mae crwneriaid yn ymchwilio i farwolaethau a ryportiwyd iddynt os oes ganddynt le i feddwl:

- bod y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol;
- bod yr hyn achosodd y farwolaeth yn anhysbys; neu
- y bu farw'r ymadawedig tra oedd yn y carchar, yng ngofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth, fel canolfan i fewnfudwyr, neu tra oedd dan glo o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (gweler yr Eirfa).

Pan fydd marwolaeth yn cael ei riportio i grwner, mae ef neu hi:

- yn sefydlu'n gyntaf a oes angen cynnal ymchwiliad;
- os oes, mae'n ymchwilio i sefydlu pwy oedd y unigolyn a fu farw; sut, pryd a lle y bu farw; ac unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i gofrestru'r farwolaeth; ac
- yn defnyddio'r wybodaeth a gasglodd yn ystod yr ymchwiliad i helpu i atal marwolaethau eraill rhag digwydd lle bo hynny'n bosibl.

### 2.3 Beth yw ymchwiliad crwner?

Ymchwiliad crwner yw'r broses lle mae'r crwner yn sefydlu pwy a fu farw, a sut, pryd a lle y bu farw. Gall y crwner benderfynu, fel rhan o'r ymchwiliad, cynnal cwest (gweler adran 8 isod).

Mewn rhai achosion, gall marwolaeth gael ei chyfeirio at yr heddlu i ymchwilio iddi ar ran y crwner. Y rheswm am hyn efallai yw am fod gan yr heddlu arbenigedd, e.e. mewn damwain ar y ffordd; neu mewn trosedd a allai fod yn berthnasol i'r farwolaeth.

Mewn rhai achosion, bydd angen i sefydliadau eraill fel ysbyty, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<sup>1</sup>, yr Ombwdsman Carchardai a Phrawf<sup>2</sup>, y Comisiwn Ansawdd Gofal<sup>3</sup>, neu Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu<sup>4</sup> gynnal ymchwiliad ar wahân i'r farwolaeth. Fel arfer bydd yr ymchwiliad hwn yn digwydd gyntaf a bydd y crwner yn cael y canlyniadau fel y gall ef neu hi ddefnyddio'r wybodaeth yn y cwest (gweler adran 8 isod).

## **2.4 Beth yw swyddog crwner?**

Mae swyddogion y crwner yn gweithio ar gyfarwyddyd y crwner ac yn cynnal cyswllt â phobl a gafodd brofedigaeth a hefyd gyda'r heddlu, meddygon, tystion, staff y mortiwari, staff profedigaeth yr ysbyty a threfnwyr angladdau. Dinasyddion cyffredin yw'r rhan fwyaf o swyddogion y crwner, ond mae rhai yn blismyn.

Mae gan rai crwneriaid staff gyda theitlau eraill, fel ysgrifennydd neu glerc.

## **2.5 Pwy sy'n talu am wasanaeth y crwner lleol?**

Mae'r gost o ddarparu gwasanaeth crwner lleol fel arfer yn cael ei chwrrd gan yr awdurdod lleol dros yr ardal. Mewn rhai ardaloedd, mae'r heddlu lleol yn cyflogi swyddogion crwner. Fodd bynnag, mae gwaith y swyddogion bob amser yn cael ei gyflawni ar gyfarwyddyd y crwner sy'n gweithio'n annibynnol i'r awdurdod lleol ac i'r heddlu lleol.

---

<sup>1</sup> [www.hse.gov.uk/aboutus/index.htm](http://www.hse.gov.uk/aboutus/index.htm)

<sup>2</sup> [www.ppo.gov.uk/about-us.html](http://www.ppo.gov.uk/about-us.html)

<sup>3</sup> [www.cqc.org.uk/aboutcqc.cfm](http://www.cqc.org.uk/aboutcqc.cfm)

<sup>4</sup> [www.ipcc.gov.uk/en/Pages/about\\_ipcc.aspx](http://www.ipcc.gov.uk/en/Pages/about_ipcc.aspx)

## ADRAN 3

### 3. Dechrau Ymchwiliad

#### 3.1 A yw pob marwolaeth yn cael ei riportio i grwner?

Nac ydy, mai llai na hanner yr holl farwolaethau'n cael eu riportio i'r crwner.

#### 3.2 Pryd mae marwolaeth yn cael ei riportio i grwner?

Rhaid i gofrestryddion genedigaethau a marwolaethau, meddygon neu'r heddlu riportio marwolaethau i'r crwner mewn rhai amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae'n ymddangos:

- na welodd yr un meddyg yr ymadawedig yn ystod ei salwch terfynol;
- er i feddyg fod gyda'r ymadawedig yn ystod ei salwch terfynol, nid yw'r meddyg yn gallu neu nid yw ar gael, am ba bynnag reswm, i ardystio'r farwolaeth;
- mae'r hyn achosodd y farwolaeth yn anhysbys;
- digwyddodd y farwolaeth yn ystod llawdriniaeth neu cyn i'r unigolyn ddod dros effaith yr anaesthetig;
- digwyddodd y farwolaeth yn y gwaith neu oherwydd gwenwyn neu afiechyd diwydiannol;
- roedd y farwolaeth yn sydyn a diesboniad;
- roedd y farwolaeth yn annaturioli;
- roedd y farwolaeth oherwydd trais neu esgeulustod;
- bu farw'r unigolyn mewn amgylchiadau amheus eraill; neu
- digwyddodd y farwolaeth yn y carchar, yng ngofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth (gweler yr Eirfa).

Os credwch na chafodd marwolaeth o'r fath ei riportio i'r crwner, gallwch ei riportio eich hun. Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl a chyn yr angladd. Bydd y crwner yna'n rhoi gwybod i chi beth y mae'n bwriadu ei wneud.

Nid yw'r crwner yn ymyrryd yn yr achosion niferus hynny pan fydd meddyg yr ymadawedig, neu feddyg ysbyty oedd yn trin y unigolyn yn ystod ei salwch terfynol, yn gallu rhoi diagnosis neu ardystio bod marwolaeth naturiol wedi digwydd.

### **3.3 Beth mae crwner yn ei wneud pan fydd marwolaeth yn cael ei riportio?**

Gall crwner wneud ymholiadau cychwynnol i benderfynu a oes angen ymchwilio i'r farwolaeth. Weithiau mae'r ymholiadau hynny, fel drwy drafod â meddyg yr ymadawedig, yn nodi'n glir y bu farw'r unigolyn o afiechyd neu gyflwr naturiol hysbys ac nad oes unrhyw amgylchiadau anghyffredin. Ni fydd angen i'r crwner ymchwilio ymhellach a gofynnir i'r meddyg lofnodi Tystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth (MCCD). Yn yr achosion hyn bydd y crwner yn rhoi gwybod i'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau, er ei fod ef neu hi wedi'i hysbysu o'r farwolaeth, nad oes angen ymchwilio ymhellach. Gall y teulu yna wneud apwyntiad gyda'r cofrestrydd i gofrestru'r farwolaeth.

Fodd bynnag, gallai'r crwner benderfynu ei fod ef neu hi eisiau gofyn i ymarferydd addas, patholegydd fel arfer, archwilio'r corff a chyflawni archwiliad post-mortem i helpu i ganfod beth achosodd y farwolaeth (gweler adran 4 am fwy o fanylion).

### **3.4 Gweld y corff**

Efallai y gofynnir i chi, neu rywun a ddewiswch i'ch cynrychioli, adnabod y corff yn ffurfiol. Mae gennych chithau hefyd hawl i weld y corff os dymunwch wneud hynny. Mae'r adeiladau lle mae pobl yn mynd i weld yr ymadawedig yn amrywio yn eu dyluniad ac, weithiau, byddwch yn gweld y unigolyn drwy ffenestr wydr yn hytrach na bod yn yr un ystafell.

Os cafodd y corff, er enghraifft, ddifrod drwy fod mewn damwain ffordd, bydd hyn yn cael ei egluro i chi'n sensitif a byddwch yn cael dewis gweld yr ymadawedig neu fath arall o ddull adnabod lle bo hynny'n bosibl.

### **3.5 Pryd allwch chi gofrestru'r farwolaeth?**

Pan fydd meddyg yr ymadawedig, neu feddyg ysbyty, yn ardystio'r hyn achosodd y farwolaeth heb gyfeirio'r achos at grwner, gall y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau fynd ati i gofrestru'r farwolaeth a rhoi tystysgrif marwolaeth. Bydd angen i chi dalu am gopïau o'r dystysgrif marwolaeth.

Weithiau bydd meddyg yn trafod yr achos gyda'r crwner. O ganlyniad, gall y crwner benderfynu nad oes angen iddo ef neu hi ymchwilio oherwydd bod achos y farwolaeth yn naturiol. Yng ngoleuni'r drafodaeth honno, gall y meddyg dan sylw gyflwyno'r Dystysgrif Feddygol o Achos Marwolaeth a bydd y crwner yn rhoi tystysgrif i'r cofrestrydd yn nodi nad oes angen i'r crwner ymchwilio i'r farwolaeth.

Os yw'r crwner yn penderfynu ymchwilio i'r farwolaeth, rhaid i'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau aros nes bydd y crwner wedi gorffen yr ymchwiliad cyn gallu cofrestru'r farwolaeth. Gall yr ymchwiliad hwn gymryd peth amser, er enghraifft os oes cwest i'w gynnal (gweler adran 8), felly mae'n syniad da bob amser cysylltu â swyddfa'r crwner cyn gwneud unrhyw drefniadau angladdol. Gan amlaf ni fydd y penderfyniad i ymchwilio'n achosi oedi i'r trefniadau angladdol neu i fudd-daliadau.

Gall y crwner roi tystysgrif yn cadarnhau ffaith y farwolaeth a, lle bo hynny'n hysbys, achos meddygol y farwolaeth. Er na ellir defnyddio'r dystysgrif hon i gofrestru'r farwolaeth, gellir ei defnyddio i helpu i weinyddu'r ystâd (gweler adran 6 am fwy o fanylion).

### **Safonau gwasanaeth y gallwch eu disgwyl pan fydd crwner yn ymchwilio i farwolaeth**

Pan fydd crwner yn ymchwilio i farwolaeth, bydd swyddfa'r crwner yn cysylltu gyda'r berthynas agosaf, lle mae'n gwybod pwy ydyw, a lle bo hynny'n bosibl, o fewn un diwrnod gwaith i riportio'r farwolaeth, i egluro pam gafodd y farwolaeth ei riportio a pha gamau sy'n debygol o gael eu cymryd.

# ADRAN 4

## 4. Yr archwiliad post-mortem

### 4.1 Beth yw archwiliad post-mortem?

Archwiliad meddygol o gorff ar ôl marwolaeth yw archwiliad post-mortem, i ddarganfod beth achosodd y farwolaeth. Mae archwiliad post-mortem y crwner yn annibynnol ac yn cael ei wneud gan ymarferydd meddygol addas fel patholegydd (meddyg sy'n arbenigo mewn diagnosis meddygol drwy archwilio organau, meinwe a hylifau'r corff) a ddewisir gan y crwner.

**Mae'r crwner yn penderfynu a oes angen archwiliad post-mortem a pha fath o archwiliad sydd fwyaf priodol** Yn gyfreithiol, nid oes raid i'r crwner gael eich caniatâd i archwilio'r corff, ond bydd ef neu hi'n rhoi rhesymau dros ei benderfyniad ef neu hi (sef un neu fwy o'r ffactorau fel y nodir yn 3.2 uchod)

Fel arfer mae archwiliad post-mortem yn golygu agor y corff a'i archwilio'n fewnol. Mewn rhai rhannau o'r wlad, defnyddir technegau eraill fel sganiau CT (tomograffi cyfrifiadurol) neu MRI (delweddu cyseinnedd magnetig) ac mae'n well gan rai pobl y dulliau hyn os ydynt yn gwrthwynebu'n gryf i agor ac archwilio'r corff yn fewnol. Ond y crwner sy'n penderfynu a fydd techneg sganio'n briodol (os yw ar gael), gan ddibynnu ar amgylchiadau'r farwolaeth. Lle defnyddir techneg sganio, bydd angen i'r teulu neu'r berthynas agosaf dalu ffi (am hyn ac unrhyw brofion ychwanegol y bydd y crwner yn penderfynu sydd angen eu gwneud). Ni fydd defnyddio techneg sganio'n golygu na fydd raid hefyd cyflawni archwiliad post-mortem llawn os na fydd y sgan yn canfod beth achosodd y farwolaeth.

Lle bo hynny'n bosibl, bydd crwneriaid yn ystyried eich anghenion diwylliannol a chrefyddol yn unol â'r gyfraith wrth orchymyn archwiliad post-mortem a'r math o archwiliad fydd yn cael ei wneud.

Gallwch ddewis eich meddyg eich hun i'ch cynrychioli yn yr archwiliad, er nad oes angen hyn fel arfer (a byddai'n rhaid i chi dalu unrhyw ffi y byddai'r meddyg yn ei chodi). Os dewiswch gael rhywun i'ch cynrychioli, dylech roi gwybod i'r crwner yn syth. Bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthyhych pryd a ble fydd yr archwiliad yn digwydd.



Weithiau bydd y crwner yn gofyn am 'archwiliad post-mortem fforensig' (er enghraifft, lle mae amheuaeth o lofruddiaeth; gweler yr Eirfa) neu archwiliad gwyddonol ychwanegol o'r deunydd i helpu i sefydlu beth achosodd y farwolaeth, neu, yn fwy prin, pwy oedd yr ymadawedig.

Os ydych yn parhau i fod yn bryderus ynghylch achos y farwolaeth, gallwch drefnu archwiliad post-mortem ychwanegol, ar wahân. Chi fyddai'n talu am hwn, unwaith fydd y crwner wedi rhyddhau'r corff.

### **Safonau gwasanaeth y gallwch eu disgwyl wrth wneud archwiliad post-mortem**

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthy, os gofynnwch, pryd a ble fydd archwiliad yn cael ei wneud.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu'n gwrthwynebu i'r penderfyniad i wneud archwiliad post-mortem neu i archwilio meinwe'r corff ymhellach, dylech roi gwybod i swyddfa'r crwner cyn gynted ag y bo modd fel y gall ystyried eich dymuniadau.

Os bydd y crwner yn penderfynu peidio â gofyn am archwiliad post-mortem, a chithau'n credu y dylid cyflawni un, dylech drafod hyn gyda swyddfa'r crwner.

**Ym mhob achos, y crwner sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch archwiliad post-mortem ac unrhyw brofion eraill.**

# ADRAN 5

## 5. Ar ôl yr archwiliad post-mortem

### 5.1 Adroddiad yr archwiliad post-mortem

Ar ôl yr archwiliad post-mortem, bydd y patholegydd yn anfon adroddiad i'r crwner. Bydd yr adroddiad yn rhoi manylion am yr archwiliad, unrhyw feinwe neu organau a gadwyd, ac unrhyw brofion, fel am gyffuriau neu lefel yr alcohol yn y gwaed, a wnaed i helpu i ddarganfod pam y bu'r unigolyn farw.

Weithiau ni fydd adroddiad y patholegydd ar gael am wythnosau lawer oherwydd cymhlethdod yr archwiliad (yn enwedig os cafodd archwiliad fforensig ei wneud, os oes angen archwilio'r organau'n arbenigol iawn, neu os cafodd yr archwiliad ei wneud ar gorff plentyn bach).

Gallwch ofyn am gopi o adroddiad y patholegydd. Gweler adran 13 am fwy o wybodaeth. Efallai y byddwch eisiau nodi'r manylion yn adran 15 y llawlyfr hwn.

### 5.2 Beth sy'n digwydd ar ôl yr archwiliad post-mortem?

Gall y crwner benderfynu bod yr ymchwiliad naill ai'n ddiangen neu'n gyflawn os dangosodd yr archwiliad post-mortem pam y bu'r unigolyn farw. Bydd y crwner yna'n rhyddhau'r corff i'w gladdu (gweler adran 6 am fwy o fanylion am ryddhau corff).

Bydd y crwner yn anfon ffurflen i'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau'n nodi beth achosodd y farwolaeth yn ôl adroddiad yr archwiliad post-mortem. Pan fydd y cofrestrydd wedi derbyn y ffurflen hon, gallwch wneud apwyntiad i gofrestru'r farwolaeth (efallai y byddwch eisiau nodi'r manylion perthnasol yn adran 15 y llawlyfr hwn).

Weithiau gall y crwner benderfynu bod angen ymchwilio ymhellach i'r farwolaeth. Fel arfer bydd y crwner yn dal yn rhyddhau'r corff ar y pwynt hwn, fel bo'r angladd yn gallu digwydd, os nad oes angen y corff arno / arni mwyach ar gyfer yr ymchwiliad. Fodd bynnag, ambell dro ni fydd hyn yn bosibl ac, os felly, bydd swyddfa'r crwner yn egluro'r trefniadau wrthych.

Gweler adran 6 am fwy o wybodaeth.

Ambell dro, er y gall y crwner ryddhau'r corff i'w gladdu, efallai na fydd yn bosibl rhyddhau organ (neu organau) yn syth oherwydd bod angen archwiliad arbenigol a allai gymryd amser maith. Eto, bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi beth yw'r gwahanol opsiynau sydd gennych.

Efallai y byddwch eisiau dod o hyd i drefnydd angladdau drwy un o gymdeithasau masnach y diwydiant sef Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) (<http://www.nafd.org.uk/funeral-advice/funeral-advice-home.aspx>) neu Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF) (<http://www.saif.org.uk/website/index.html>)

## ADRAN 6

### 6. Rhyddhau'r corff i'w gladdu a gweinyddu'r ystâd

#### 6.1 Beth sy'n digwydd i'r corff ar ôl yr archwiliad post-mortem os yw'r crwner yn penderfynu parhau gyda'r ymchwiliad?

Yn gyfreithiol rhaid i'r crwner barhau ag ymchwiliad a chynnal cwest lle:

- mae achos y farwolaeth yn dal i fod yn anhysbys ar ôl yr archwiliad post-mortem ac unrhyw brofion a wnaed wedyn;
- mae lle i'r crwner amau fod yr ymadawedig wedi marw o farwolaeth dreisgar neu annaturiol; neu
- digwyddodd y farwolaeth yn y ddalfa neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth (gweler yr Eirfa).

Rhaid i'r crwner ryddhau'r corff i'w gladdu neu i'w losgi cyn gynted ag y bo modd. Os na all y crwner ryddhau'r corff o fewn 28 diwrnod, rhaid rhoi'r rheswm am yr oedi i'r berthynas agosaf, lle mae'n gwybod pwy ydyw, neu i'w gynrychiolydd unigolynol. (Er enghraifft, os oes anghytundeb ynghylch i bwy y dylid rhyddhau'r corff.)

Mae'r gweithdrefnau'n gallu amrywio pan fydd ymchwiliad troseddol i farwolaeth. Gweler adran 10 am fanylion.

#### 6.2 Beth sy'n digwydd gyda gweinyddu ystâd yr ymadawedig os yw'r crwner yn parhau gydag ymchwiliad ar ôl archwiliad post-mortem?

Er mwyn helpu i weinyddu'r ystâd, os yw crwner wedi dechrau ond heb eto orffen ymchwiliad, neu wedi dewis peidio â pharhau ag ymchwiliad, gall y crwner roi tystysgrif crwner yn nodi ffaith y farwolaeth. Dylai'r dystysgrif hon fod yn dderbyniol i fanciau a sefydliadau ariannol oni bai ei bod yn bwysig iddynt gael gwybod canlyniad yr ymchwiliad (er enghraifft, lle mae arian yswiriant i'w dalu). Gellir cael grant profiant neu lythyrau gweinyddu os cyflwynir tystysgrif ffaith marwolaeth a gellir hefyd ei defnyddio i bwrpas hawlio budd-daliadau ac Yswiriant Gwladol. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio tystysgrif ffaith marwolaeth i gofrestru'r farwolaeth, hyd yn oed os yw achos y farwolaeth yn hysbys.

Mae Gwasanaeth 'Dweud Unwaith' y Llywodraeth ar gael dros y rhan fwyaf o Loegr ac ar draws Cymru i gyd. Ar ôl cofrestru'r farwolaeth, mae'r gwasanaeth 'Dweud Unwaith' yn gadael i chi riportio'r farwolaeth i'r rhan fwyaf o gyrff y llywodraeth sydd angen rhoi gwybod iddynt, dim ond drwy wneud hynny unwaith. Gellir hefyd cynnig y Gwasanaeth Dweud Unwaith lle mae'r crwner wedi rhoi tystysgrif ffaith marwolaeth. Mae'r gwasanaeth ar gael wyneb yn wyneb yn eich cyngor lleol, ar-lein yn (<https://www.gov.uk/tell-us-once>) neu dros y ffôn (bydd y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau'n gallu rhoi'r rhif ffôn perthnasol i chi).

Lle mae'r crwner wedi gorffen ei ymchwiliad (gan gynnwys y cwest os oes un i'w gynnal), bydd y crwner yn hysbysu'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau fel bo'r cofrestrydd yn gallu cofrestru'r farwolaeth a gallwch yna brynu tystysgrif marwolaeth gan y cofrestrydd.

### **6.3 Beth sy'n digwydd os wyf eisiau mynd â chorff dramor?**

Rhaid hysbysu'r crwner os bwriedir mynd â chorff allan o Gymru a Lloegr.

Os bwriadwch wneud hyn, rhaid i chi hysbysu'r crwner yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl. Bydd y crwner yna'n ystyried a oes angen ymchwiliad (pellach) ac yn hysbysu'r berthynas agosaf o'i benderfyniad cyn gynted â phosibl ac o fewn pedwar diwrnod. Gall y rhan fwyaf o drefnwyr angladdau roi mwy o fanylion am y drefn hon a gall y cofrestrydd roi'r ffurflen angenrheidiol i chi pan fyddwch yn cofrestru'r farwolaeth.

## ADRAN 7

### 7. Organau a meinwe

#### 7.1 A fydd organau'n cael eu cadw ar ôl archwiliad post-mortem y crwner?

Gall tameidiau bach o feinwe ac, weithiau, organau gael eu tynnu o'r corff i'w cadw rhag dirywio gan batholegydd os ydynt yn berthnasol i'r hyn achosodd y farwolaeth neu i bwy oedd yr ymadawedig. Os cedwir y math yma o ddeunydd i'w archwilio ymhellach, bydd y crwner yn hysbysu'r berthynas agosaf ac yn gofyn beth ydynt am iddynt ei wneud gyda'r organau neu'r meinwe ar ôl gorffen gyda nhw.

Unwaith fydd ymchwiliad y crwner wedi gorffen gyda'r deunydd, bydd y deunydd naill ai'n cael ei gadw fel rhan o gofnod y batholeg neu'n cael ei ddychwelyd i deulu'r ymadawedig neu eu cynrychiolydd, os byddant yn gofyn, neu'n cael ei gladdu neu ei losgi. Os yw'r patholegydd yn credu y byddai'n briodol cadw'r organau a'r meinwe, er enghraifft i'w defnyddio mewn ymchwil neu i bwrpas hyfforddiant, rhaid iddynt ofyn am eich caniatâd. Mewn achosion eithriadol, e.e. llofruddiaeth, efallai y bydd angen cadw'r meinwe am gyfnod hirach.

Mae mwy o wybodaeth gyffredinol am gadw meinwe, a'r gofynion cyfreithiol ynghylch rhoi caniatâd, ar gael gan yr Awdurdod Meinwe Dynol drwy ffonio 020 7269 1900 neu ar-lein yn <http://www.hta.gov.uk>.

# ADRAN 8

## 8. Y cwest

### 8.1 Beth yw cwest?

Os nad oedd yn bosibl darganfod pam y bu'r unigolyn farw o'r archwiliad post-mortem, neu os cafwyd bod y farwolaeth yn annaturiol (neu a ddigwyddodd tra oedd y unigolyn mewn canolfan gadw gan y wladwriaeth) neu os yw'r crwner yn meddwl bod rheswm da dros barhau ag ymchwiliad, rhaid i grwner gynnal cwest fel bo'n gallu gorffen ei ymchwiliad. (Yr eithriad yw os bwriedir erlyn rhywun am achosi'r farwolaeth – mae mwy o fanylion am hyn yn adran 10.)

Gwrandawriad mewn llys cyhoeddus yw cwest sy'n cael ei gynnal gan grwner i sefydlu pwy a fu farw a sut, pryd a lle y bu farw. Gellir cynnal cwest gyda neu heb reithgor, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r farwolaeth. Gweler isod am fanylion am gwestau rheithgor. Mae gan rai crwneriaid eu llysoedd eu hunain ond mae eraill yn defnyddio mathau eraill o lysoedd neu adeiladau cyhoeddus.

Mae cwest yn wahanol i fathau eraill o wrandawriad llys oherwydd nid oes erlyniad nac amddiffyniad. Pwrpas y cwest yw darganfod ffeithiau'r farwolaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r crwner (neu'r rheithgor) yn gallu cael unigolyn neu sefydliad yn droseddol gyfrifol am y farwolaeth. Fodd bynnag os daethpwyd o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu bod rhywun efallai ar fai am y farwolaeth, gall y crwner basio'r holl dystiolaeth a gasglwyd i'r heddlu neu i Wasanaeth Erlyn y Goron.

### 8.2 Pryd fydd y cwest yn digwydd?

Dylai'r prif wrandawriad cwest ddigwydd o fewn chwe mis fel arfer neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r farwolaeth gael ei riportio i'r crwner. Weithiau bydd angen i chi aros mwy na chwe mis am gwest oherwydd cymhlethdod yr achos neu ffactorau eraill (er enghraifft lle mae sefydliad arall, fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i farwolaeth yn y gwaith). Os felly, bydd swyddfa'r crwner yn gallu eich diweddar ar gynnydd yr achos.

### 8.3 Agor a gohirio cwest

Lle mae angen cwest rhaid i'r crwner agor y cwest cyn gynted â phosibl. Fel arfer mae'r gwrandawriad hwn yn fyr iawn ac yn cael ei gynnal yn gyhoeddus. Gallai'r wasg neu'r cyfryngau fod yn bresennol i riportio'r manylion wedyn, er y bydd y rhain yn anochel braidd yn brin. Bydd y crwner yna'n gohirio'r cwest yn syth tan ddyddiad nes ymlaen pan fydd gan y crwner yr wybodaeth sydd ei hangen arno ef neu hi i symud ymlaen gyda'r cwest. Pan agorir y cwest rhaid i'r crwner, lle bo hynny'n bosibl, nodi dyddiadau'r gwrandawiadau pellach sydd i'w cynnal.

Nid oes raid i chi fynychu agoriad y cwest ond gallwch ofyn i'r crwner os ydych yn dymuno gwneud hynny.

### 8.4 Beth yw adolygiad cyn-cwest?

Weithiau gall crwner gynnal un neu fwy o wrandawiadau cyn y cwest, a gelwir y rhain yn adolygiadau cyn-cwest neu'n wrandawiadau cyfarwyddo. Gellir trefnu'r rhain os yw amgylchiadau'r farwolaeth yn gymhleth, er enghraifft, ac mae angen cael trafodaeth gyfreithiol ynghylch sgôp y cwest. Bydd y crwner yn eich gwahodd i'r adolygiad cyn-cwest, lle bydd gennych gyfle i ofyn i'r crwner ynghylch beth y meddyliwch ddylai'r cwest ei drafod.

Fel arfer bydd adolygiadau cyn-cwest yn rhai cyhoeddus, ond mewn rhai amgylchiadau, fel pan drafodir materion cymhleth, ni fyddant yn gyhoeddus.

#### **Safonau Gwasanaeth Y Gallwch eu disgwyl cyn cwest**

Bydd swyddfa'r crwner yn cysylltu gyda chi'n rheolaidd ac, os bydd yr ymchwiliad yn cymryd amser hir, o leiaf pob tri mis i'ch diweddarau ar gynydd yr achos. Ni fydd hyn yn digwydd os ydych wedi dweud eich bod ond eisiau i ni gysylltu pan fydd cynnydd i'w riportio. Gallwch chi hefyd gysylltu â swyddfa'r crwner i ofyn am y diweddaraf ar eich achos.

Rhaid i swyddfa'r crwner ddweud wrthyhch pryd a lle fydd y cwest yn digwydd o fewn wythnos i drefnu'r cwest. Bydd swyddfa'r crwner, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn ystyried eich barn am ddyddiad y cwest. Efallai y byddwch eisiau nodi manylion y cwest yn adran 15 y llawlyfr hwn.



Bydd swyddfa'r crwner hefyd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am bobl eraill fydd efallai yn y cwest, a sut allwch gymryd rhan, er enghraifft a ydych am siarad yn bersonol â'r crwner neu drwy gynrychiolydd, neu ofyn cwestiynau i dystion am y dystiolaeth a roesant.

Os bydd angen newid dyddiad neu leoliad y cwest, bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi o fewn wythnos.

Os bydd y crwner yn penderfynu cael adolygiad cyn-cwest, bydd swyddfa'r crwner yn rhoi amser, dyddiad a'r lleoliad i chi a'r rheswm dros ei gynnal.

Gallwch ofyn am gopiâu o ddogfennau perthnasol gan swyddfa'r crwner, cyn y cwest. Gweler adran 13 am fwy o fanylion.

## 8.5 Pwy sy'n cael mynychu cwest?

Cynhelir gwrandawiadau cwest yn gyhoeddus bron bob tro.

Os dewiswch fynychu'r cwest, gallwch ddod â chefnogwr gyda chi, ffrind er enghraifft. Mae'n well gan rai pobl a gafodd brofedigaeth beidio â dod i gwest, oherwydd gallai fanylion y farwolaeth achosi cryn drallod. Os byddwch yn mynychu, bydd rhai crwneriaid yn rhoi cyfle i chi adael y llys pan fydd y patholegydd, er enghraifft, yn rhoi tystiolaeth ac os byddech yn ei chael yn rhy anodd clywed yr wybodaeth hon.

Bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthyfych os oes Gwasanaeth Cymorth Llys y Crwner, neu wasanaeth cymorth arall, ar gael yn eich ardal a sut y gall eich helpu. Darperir y gwasanaeth annibynnol hwn gan wirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi, ac nid yw ar gael ym mhob man.

Efallai y gofynnir i dystion (er enghraifft meddyg, plismon neu lygad-dyst) fynychu i roi tystiolaeth. Fel arfer mae aelodau o'r cyhoedd a'r cyfryngau yn cael mynychu cwest.

## 8.6 A fydd angen i mi siarad yn y cwest?

Mae'n bosibl y gofynnir i chi roi tystiolaeth. Efallai er mwyn rhoi gwybodaeth am yr ymadawedig neu'r farwolaeth. Os credwch y bydd hyn yn rhy anodd, gallwch ofyn am gael gwneud datganiad ysgrifenedig a fydd efallai'n cael ei ddarllen allan gan swyddog y crwner.

Rhaid i chi roi tystiolaeth dan lw neu drwy gadarnhau y byddwch yn dweud y gwir. Dylech ddweud wrth swyddfa'r crwner os oes gennych unrhyw ofynion crefyddol neu eraill, fel bo'r geiriau priodol yn cael eu rhoi i chi eu darllen.

Gallwch ofyn cwestiynau yn y cwest (gweler nes ymlaen yn yr adran hon).

Efallai y byddwch eisiau nodi unrhyw gwestiynau yr ydych eisiau eu gofyn yn adran 15 y llawlyfr hwn.

### **8.7 Pwy sy'n penderfynu pa dystion i'w galw?**

Y crwner sy'n penderfynu pwy i'w alw i roi tystiolaeth fel tyst ac ym mha drefn y byddant yn rhoi tystiolaeth. Os credwch fod gennych dystiolaeth, neu y dylid galw tyst arbennig, os gallwch dylech roi gwybod i'r crwner ddigon ymlaen llaw cyn dyddiad y gwrandawriad. Bydd y crwner yna'n penderfynu a yw'r dystiolaeth yn berthnasol i'r ymchwiliad.

### **8.8 Oes raid i dyst fynychu'r cwest?**

Os yw'r tyst yn byw yng Nghymru neu Loegr, rhaid iddynt fynychu os gofynnir iddynt. Yn aml iawn, gall tystiolaeth tyst fod yn hanfodol i sefydlu ffeithiau'r farwolaeth. Gellir gofyn i dyst naill ai fynychu'r cwest yn wirfoddol neu eu gwysio'n ffurfiol i wneud hynny. Mae'n drosedd peidio â mynychu a gall y crwner roi dirwy neu ddedfryd o garchar.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall y crwner weithiau adael i rywun roi tystiolaeth y tu ôl i sgrin, neu drwy gyswllt fideo, os yw'n penderfynu y byddai'n gwella'r dystiolaeth, os byddai'n golygu y gallai'r cwest gael ei gynnal yn gynt neu os byddai'n amddiffyn tyst agored i niwed a allai fod mewn perygl o gael niwed gan eraill.

Os yw'r tyst yn byw dramor, nid oes raid iddynt ddod i'r cwest i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, gall y crwner benderfynu derbyn tystiolaeth ysgrifenedig gan y tyst.

### **8.9 Pwy sy'n cael holi tystion?**

Y crwner fydd yn holi tyst i ddechrau. Yna gallwch chi (ac unrhyw bersonau eraill gyda budd – gweler yr Eirfa) ofyn cwestiynau perthnasol i'r tyst, neu gall eich cynrychiolydd ofyn ar eich rhan, os yw'r crwner yn cytuno.

Wrth ofyn cwestiynau rhaid i chi gofio mai pwrpas y cwest yw sefydlu ffeithiau perthnasol y farwolaeth ac nid beio rhywun. Ni ddylech ofyn cwestiynau sy'n ymddangos i fod yn beio rhywun am y farwolaeth.

Gallai helpu os meddyliwch am ba gwestiynau yr ydych am eu gofyn cyn y cwest, ac efallai eu hanfon i'r crwner ymlaen llaw fel bod ganddo ef neu hi amser i'w hystyried.

Y crwner sy'n penderfynu a yw cwestiwn yn berthnasol i'r cwest neu beidio. Bydd y crwner hefyd yn rhybuddio tyst nad oes raid iddo ef neu hi ateb unrhyw gwestiwn lle gallai neu lle byddai'n taflu bai arno'i hun.

### **8.10 Oes yna reithgor mewn cwest bob tro?**

Na, cynhelir cwest gan amlaf heb reithgor, ond mae amgylchiadau penodol lle mae'r gyfraith yn nodi bod angen galw rheithgor, gan gynnwys:

- os digwyddodd y farwolaeth yn y carchar, yng ngofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth (ac eithrio os bu farw'r unigolyn o achosion naturiol); neu
- os bu farw'r unigolyn oherwydd damwain yn y gwaith.

### **8.11 Beth mae'r rheithgor yn ei wneud?**

Ym mhob cwest gyda rheithgor, y crwner sy'n penderfynu materion cysylltiedig â chyfraith a gweithdrefn a'r rheithgor sy'n penderfynu ffeithiau'r achos ac yn dod i gasgliad sy'n rhaid iddo gynnwys y 'penderfyniad' cyfreithiol a'r 'darganfyddiadau' (gweler yr Eirfa), gan gynnwys achos y farwolaeth. Fel y crwner, ni all y rheithgor feio rhywun am y farwolaeth. Os oes bai ar rywun, gellir ond sefydlu hynny drwy gynnal achos cyfreithiol arall yn y llysoedd sifil neu droseddol. Fodd bynnag, gall y rheithgor ddatgan ffeithiau sy'n nodi'n glir bod y farwolaeth wedi'i hachosi gan fethiant penodol o ryw fath neu gan esgeulustod.

Gelwir rheithgor yn yr un ffordd â rheithgorau mewn llysoedd eraill (oddi ar y Gofrestr Etholiadol) ac mae'n cynnwys rhwng saith ac un-ar-ddeg o aelodau.

### **8.12 A oes angen cyfreithiwr arnaf?**

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd angen i chi gyfarwyddo cyfreithiwr i'ch cynrychioli mewn cwest, er y gallwch wneud os dymunwch. Proses i ddarganfod ffeithiau yw cwest a bydd y crwner yn sicrhau bod y broses yn deg a thrylwyr a bod eich cwestiynau am ffeithiau'r farwolaeth yn cael eu hateb.

Os yw'n bosibl y bydd achos llys arall yn cael ei gynnal ar ôl y cwest (fel hawliad am esgeulustod meddygol neu iawndal oherwydd marwolaeth o afiechyd neu ddamwain ddiwydiannol), gallai fod yn ddefnyddiol cael eich cyfreithiwr yn y llys. Byddwch hefyd efallai am gael eich cyfreithiwr yno os bydd tystion eraill yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr.

Os felly, byddai'n syniad da i chi ddewis cyfreithiwr sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn cynnal cwestau ac yn y meysydd sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth, oherwydd mae rheolau manwl y dystiolaeth ac agweddau eraill ar gwest crwner yn wahanol i'r rhai mewn llysoedd eraill. Gallai gwefan Cymdeithas y Cyfreithwyr eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn <http://www.lawsociety.org.uk/>

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth swyddfa'r crwner os bydd gennych gyfreithiwr yn bresennol, fel bo'r crwner yn gwybod eu bod yno ar eich cais a gyda'ch caniatâd. Gall eich cyfreithiwr hefyd fynychu unrhyw adolygiad cyn-cwest.

### **8.13 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael?**

Mae cyngor a chymorth cyfreithiol cyn y gwrandawriad – drwy'r cynllun Cymorth Cyfreithiol – ar gael os ydych yn cymhwyso'n ariannol ar ei gyfer. Gellir defnyddio Cymorth Cyfreithiol i'ch helpu, er enghraifft, i baratoi rhestr o gwestiynau ysgrifenedig y dymunwch i'r crwner eu gofyn i dystion eraill.

Yn wahanol i achosion eraill lle na fyddai cymorth cyfreithiol efallai ar gael, nid oes partion mewn cwest, dim ond 'unigolion' gyda budd' (gweler yr Eirfa) ac ni ddisgwylir i dystion gyflwyno dadleuon cyfreithiol. Fel rheol ni roddir cymorth cyfreithiol os dymunwch gael eich cynrychioli yn y cwest, ond gellir ei roi mewn achosion eithriadol. Fel arfer, rhaid i chi gymhwyso'n ariannol a rhaid i'ch cais fodloni meini prawf llym os yw eich cynrychiolydd i gael ei ariannu mewn achosion eithriadol.

I gael gwybod a fydddech yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol dylech ffonio llinell gynghori'r gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil ar 0845 345 4345.

I gael gwybod mwy am ba gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith wedi'i ariannu drwy gymorth cyfreithiol, ewch i <http://find-legal-advice.justice.gov.uk/>. Mae gan Gymdeithas y Gyfraith hefyd gronfa ddata o gyfreithwyr, i gael mwy o fanylion ffoniwch ( 020 7242 1222 neu ewch i'r wefan yn <http://www.lawsociety.org.uk/find-a-solicitor/>.

Mae mwy o wybodaeth am gymorth cyfreithiol ar gael ar-lein yn <https://www.gov.uk/legal-aid>.

## **8.14 Fydd y cwest yn cael ei riportio yn y wasg?**

Cynhelir cwest bron bob amser mewn llys agored, lle gall y cyhoedd fynychu. Gall newyddiadurwyr hefyd fynychu a riportio'r hyn a ddigwyddodd.

Bydd nodiadau hunanladdiad a llythyrau unigolynol ond yn cael eu darllen yn y cwest os yw'r crwner yn penderfynu ei bod yn bwysig gwneud hynny. Os darllenir y pethau hyn allan, gall eu cynnwys gael ei riportio. Er y gwneir pob ymdrech i osgoi achosi mwy o drallod i fywydau preifat pobl, weithiau mae'n anochel os yw'r cwest i ddarganfod ffeithiau am y farwolaeth. Gall ffotograffau o'r ymadawedig a lle digwyddodd y farwolaeth hefyd fod yn rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir yn y cwest. Ni fydd swyddfa'r crwner yn rhyddhau unrhyw wybodaeth i'r cyfryngau nad yw eisoes yn gyhoeddus drwy gwest, oni bai fod y berthynas agosaf yn rhoi eu caniatâd.

Rhaid i bobl sy'n gweithio i bapurau newydd neu gylchgronau lynu wrth y Cod Ymarfer i Olygyddion a gefnogir gan Gomisiwn Cwynion y Wasg (PCC). Mae'r Cod (<http://www.pcc.org.uk>) yn cynnwys gofynion o ran cywirdeb, preifatrwydd a gwahaniaethu. Mae ganddo hefyd reolau ar gyfer achosion lle mae galaru a sioc yn ffactorau. Er enghraifft, rhaid delio'n sensitif â chyhoeddi yn yr amgylchiadau hyn; ac wrth riportio hunanladdiad dylid gofalu peidio â mynd i ormod o fanylder am sut ddigwyddodd hyn.

Gallwch gwyno i'r PCC am ddeunydd a gyhoeddwyd. Gallwch hefyd ofyn am gyngor gan y PCC ar sut i atal harasio gan newyddiadurwyr. Mae mwy o wybodaeth ar wefan y PCC neu gallwch ffonio 020 7831 0022 (switsfwrdd) neu 0845 600 2757 (llinell gymorth). Mae gan y PCC hefyd rif ffôn y tu allan i oriau ar gyfer argyfwng yn unig 07659 152656. Mae'r PCC wedi cynhyrchu canllawiau manwl o'r enw "Media attention following a death", sydd ar gael i'w darllen ar eu gwefan.

Ar gyfer materion yn ymwneud â darlledu, gallwch hefyd gwyno i'r corff rheoleiddio cyfathrebu, sef Ofcom (<http://www.ofcom.org.uk> ffoniwch 0300 123 3333 neu 020 7981 304 neu i'r BBC (<http://www.bbc.co.uk/complaints> neu 03700 100 222).

### Safonau gwasanaeth y gallwch eu disgwyl mewn cwest

Mae rhai crwneriaid yn trefnu i Wasanaeth Cymorth Llys y Crwner neu wasanaeth tebyg arall, os bydd y rhain ar gael, fod yn bresennol ar ddiwrnodau cwest. Os felly, bydd y Gwasanaeth Cymorth yn eich croesawu ar ôl cyrraedd, yn egluro'r broses lle bo angen – gan weithio ar y cyd â swyddogion y crwner – ac yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Mae gan rai lleoliadau cwest ystafell y gallwch ei defnyddio fel ystafell aros breifat. Os felly, bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi.

Oherwydd bod cwest yn achlysur ffurfiol, dylech ystyried gwisgo'n eithaf smart, ond yn gyffyrddus.

Bydd swyddfa'r crwner yn ceisio gwneud amgylchedd y cwest mor groesawus a diogel â phosibl ac yn eich trin yn deg, parchus a sensitif.

# ADRAN 9

## 9. Ar ddiwedd y cwest

### 9.1 Casgliadau'r cwest – penderfyniadau a darganfyddiadau

Ar ddiwedd y cwest, bydd y crwner (neu'r rheithgor pan fydd un) yn dod i gasgliad (gweler yr Eirfa). Bydd hyn yn cynnwys y 'penderfyniad' cyfreithiol yn nodi'n ffurfiol pwy a fu farw, ble, pryd a sut. Gall y crwner neu'r rheithgor hefyd wneud 'darganfyddiadau' fel bo'r farwolaeth yn cael ei chofrestru (gweler yr Eirfa am fanylion). Wrth gofnodi achos y farwolaeth, gall y crwner neu'r rheithgor ddefnyddio un o'r termau canlynol:

- damwain neu anffawd
- cysylltiedig ag alcohol / cyffuriau
- afiechyd diwydiannol
- lladd yn gyfreithlon / anghyfreithlon
- achosion naturiol
- agored (lle nad oes digon o dystiolaeth i roi unrhyw ganlyniad arall)
- damwain ar y ffordd
- marw-enedigaeth
- hunan-laddiad

Fel arall, neu'n ychwanegol, gall y crwner neu'r rheithgor ddod i gasgliad 'naratif' byr gan nodi ffeithiau mwy manwl yn gysylltiedig â'r farwolaeth ac yn egluro'r rhesymau am y penderfyniad.

Efallai y byddwch eisiau nodi casgliadau'r cwest yn adran 15 y llawlyfr hwn.

Gallwch herio penderfyniad y crwner. Rhoddir mwy o fanylion am hyn yn adran 11.

## 9.2 Beth os gellir atal marwolaethau yn y dyfodol?

Weithiau bydd cwest yn dangos bod modd gwneud rhywbeth i atal pobl eraill rhag marw. Os felly, rhaid i'r crwner ysgrifennu adroddiad yn tynnu'r mater at sylw sefydliad (neu berson) a allai fod â'r pŵer i wneud rhywbeth ynghylch y peth. Gelwir hwn yn 'adroddiad i atal marwolaethau yn y dyfodol'.

Rhaid i'r sefydliad anfon ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad i'r crwner. Os nad yw'n ymateb o fewn 56 diwrnod, yn nodi pa gamau a gymrodd, bydd y crwner yn ôl-ddilyn y mater gyda'r sefydliad a gallai benderfynu hysbysu'r Prif Grwner o'r methiant i ymateb. Rhaid i'r crwner anfon yr adroddiad a'r ymateb i'r Prif Grwner. Mae'r Prif Grwner yn cyhoeddi crynodeb o'r adroddiadau hyn, sy'n cael ei gyhoeddi'n rheolaidd ar wefan y Farnwriaeth yn <http://www.judiciary.gov.uk>

Gall swyddfa'r crwner anfon copi o'r adroddiad, a'r ymateb, atoch.

## 9.3 Achosion sifil

Bydd unrhyw achos sifil fel arfer yn digwydd ar ôl y cwest. Pan fydd yr holl ffeithiau am yr hyn achosodd y farwolaeth yn hysbys, mae'n bosibl dwyn achos sifil a gwneud hawliad am iawndal. Dylid gofyn am gyngor gan gyfreithiwr ynghylch y terfynau amser a pha weithdrefnau sy'n berthnasol.



# ADRAN 10

## 10 Ymchwiliadau lle gallai'r broses fod yn wahanol

### 10.1 Pan fydd ymchwiliad yn cael ei drosglwyddo i grwner gwahanol

Weithiau, bydd ymchwiliad yn cael ei gyflawni gan grwner mewn ardal sy'n wahanol i'r un lle digwyddodd y farwolaeth. Er enghraifft, lle cafodd rywun ei anafu mewn damwain ffordd ond yna ei symud i ysbyty mewn ardal wahanol i dderbyn gofal arbenigol cyn marw'n ddiweddarach o'i anafiadau. Gallai fod yn briodol trosglwyddo'r ymchwiliad i'r ardal lle digwyddodd y ddamwain, yn enwedig os yw hefyd yn agos at le mae teulu'r ymadawedig yn byw.

Os trosglwyddir ymchwiliad i grwner mewn ardal wahanol, bydd y crwner newydd yn eich hysbysu o'r penderfyniad hwnnw a'r rheswm drosto. Bydd swyddfa'r crwner yn ymgynghori ymlaen llaw gyda chi lle bo hynny'n bosibl.

### 10.2 Marwolaeth dramor

Bydd crwner yn ymchwilio i farwolaeth dramor os yw'r corff yn cael ei gludo'n ôl i ardal y crwner a byddai amgylchiadau'r farwolaeth, i bob golwg, wedi golygu y byddai wedi ymchwilio iddi pe bai wedi digwydd yng Nghymru neu Loegr. Gallai fod angen amrywio'r safonau gwasanaeth a nodir yn y llawlyfr hwn, yn enwedig o ran archwiliadau post-mortem a chwestau, oherwydd bod y trefniadau'n dilyn marwolaeth yn wahanol mewn gwledydd eraill ac oherwydd trafferthion gyda derbyn gwybodaeth o dramor.

Bydd y crwner yn rhoi tystysgrif i losgi ym mhob achos a ddaw o dramor lle mae'r corff i gael ei losgi. Os yw'r llosgi'n digwydd dramor a'r gweddillion a losgwyd yn dod yn ôl i Gymru neu Loegr, ni all y crwner ymyrryd yn yr achos.

Ni chofrestrir marwolaethau dramor gan y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau pan fydd y crwner wedi gorffen ei ymchwiliad. Cofrestrir hwynt yn y wlad lle bu'r unigolyn farw.

Mae mwy o wybodaeth am beth i'w wneud pan fydd rhywun yn marw dramor ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/coping-with-death-abroad>.

### **10.3 Unigolynél y lluoedd arfog sy'n marw dramor**

Pan fydd unigolynél y lluoedd arfog yn marw ar weithrediadau neu ymarfer dramor, bydd y crwner fel arfer yn gofyn am archwiliad post-mortem. Bydd y crwner hefyd fel arfer yn cynnal cwest i'r farwolaeth. Gall y gweithdrefnau fod yn wahanol a bydd swyddfa'r crwner yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Os ydych yn byw yn yr Alban, gallai fod yn bosibl i'r ymchwiliad (a elwir yn Fatal Accident Inquiry yno) gael ei gynnal yno.

### **10.4 Marwolaeth plentyn**

Mae marwolaethau plant dan 18 oed yn cael eu hadolygu gan Banel Trosolwg Marwolaethau Plant ar ran y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae'r Panel Trosolwg Marwolaethau Plant yn adolygu'r wybodaeth er mwyn atal marwolaethau yn y dyfodol, ac mae'n atebol i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant sy'n gyfrifol am ddiogelu a hybu lles plant yn ei ardal. Os yw marwolaeth rhywun dan 18 oed yn cael ei riportio i'r crwner, rhaid i'r crwner sicrhau bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant priodol yn cael gwybod am y farwolaeth o fewn tri diwrnod gwaith i agor yr ymchwiliad. Mae'r crwner a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn rhannu gwybodaeth i bwrpas ymchwilio i farwolaeth plentyn a chyflawni Adolygiad Achos Difrifol.

### **10.5 Pan fydd ymchwiliad troseddol i farwolaeth**

Lle cyflawnir ymchwiliad troseddol i'r farwolaeth, gallai fod mwy nag un archwiliad post-mortem. Bydd y crwner yn gwneud pob ymdrech i ryddhau'r corff i'w gladdu neu losgi cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, os na chyhuddwyd unrhyw un mewn cysylltiad â'r farwolaeth o fewn un mis i ddarganfod y corff, gall y crwner drefnu ail archwiliad post-mortem gan ail batholegydd sy'n annibynnol i'r un a wnaeth yr archwiliad cyntaf. Bydd hwn ar gael i'r tîm amddiffyn os cyhuddir rhywun o fod yn gyfrifol am y farwolaeth yn y dyfodol. Bydd y corff yna'n cael ei ryddhau cyn gynted ag y bo modd.

Lle cyhuddwyd rhywun o achosi, caniatáu neu gynorthwyo marwolaeth, er enghraifft drwy lofruddio neu ddynladdiad, rhaid i unrhyw ymchwiliad neu unrhyw gwest sydd i'w gyflawni gan grwner gael ei ohirio, nes bydd yr achos troseddol ar ben. Wrth ohirio ymchwiliad, rhaid i'r crwner anfon tystysgrif i'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau'n nodi pa wybodaeth sydd ei hangen i gofrestru'r farwolaeth ac i roi tystysgrif marwolaeth.

Pan fydd y treial drosodd, bydd y crwner yn penderfynu a fydd yn ail-agor yr ymchwiliad neu beidio. Os yw'r holl ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth wedi dod allan yn y treial, er enghraifft, fel arfer ni fydd angen parhau gyda'r cwest. Fodd bynnag, os penderfynir ail-gychwyn yr ymchwiliad rhaid i'r hyn achosodd y farwolaeth fod yn gyson â chanlyniad yr achos troseddol. Bydd swyddfa'r crwner yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am y broses i chi.

## **10.6 Marwolaeth yn y carchar neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth**

Lle bu'r unigolyn farw yn y carchar, yng ngofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw arall gan y wladwriaeth, rhaid cynnal cwest. Oni bai fod y unigolyn wedi marw o achosion naturiol<sup>5</sup>, rhaid cynnal y cwest gyda rheithgor. Gweler Adran 8 am fwy o fanylion am gwestau gyda rheithgor.

---

<sup>5</sup> Mewn achosion lle gallai'r wladwriaeth fod yn rhan o'r farwolaeth, cynhelir cwest 'Erthygl 2'. Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yw hon ac mae'n golygu bod yn rhaid i'r cwest nid yn unig benderfynu pwy a fu farw a phryd, lle a sut y bu'r unigolyn farw ond hefyd o dan ba amgylchiadau.

# ADRAN 11

## 11. Adborth, herio penderfyniad y crwner a chwynion

### 11.1 Adborth

Mae crwneriaid yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth sy'n cwrdd â'ch anghenion. Maent yn croesawu adborth, gan gynnwys pan fydd y gwasanaeth wedi perfformio'n dda. Dylech gyfeirio'r adborth at y crwner.

Os ydych yn anfodlon â'r cyfan neu ran o ymchwiliad gan grwner, bydd gweddill yr adran yma'n egluro beth allwch ei wneud ynghylch y peth.

### 11.2 Sut i herio penderfyniad y crwner neu ganlyniad cwest

Gallwch herio penderfyniad y crwner neu gasgliad y cwest. Os ydych yn meddwl gwneud hyn, dylech yn gyntaf ofyn am gyngor gan gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes yma o'r gyfraith. Gall rhai mudiadau cymorth profedigaeth hefyd roi cyngor i chi.

Os penderfynwch fynd â'r mater yn ei flaen, bydd angen i chi wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol o benderfyniad neu gasgliad y crwner. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ac o fewn tri mis i ddiwedd yr ymchwiliad.

Mae pŵer ar wahân yn bodoli lle gall y Twrnai Cyffredinol, neu rywun a gafodd ganiatâd gan y Twrnai Cyffredinol, wneud cais i'r Uchel Lys i gynnal ymchwiliad os na chafodd hyn ei wneud gan grwner; neu i gynnal ymchwiliad arall os yw hyn er budd cyfiawnder (e.e. oherwydd bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r golwg). Nid oes terfyn amser ar gyfer y ceisiadau hyn.

### 11.3 Cymorth cyfreithiol i herio

Gallai gymorth cyfreithiol fod ar gael ar gyfer achosion adolygiad barnwrol. Gweler adran 8 uchod am fwy o wybodaeth am ba gyfreithwyr sy'n gwneud gwaith wedi'i ariannu drwy gymorth cyfreithiol.

## 11.4 Cwyno am ymddygiad unigolynol crwner

Os ydych yn anfodlon ag ymddygiad unigolynol crwner, dylech fel arfer godi'r mater gyda'r crwner dan sylw i ddechrau.

Os na fydd y crwner yn gallu delio'n foddhaol gyda'ch cwyn, gallwch gwyno i'r Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol (JCIO) (y Swyddfa Cwynion Barnwrol o'r blaen). Byddai enghreifftiau o gamymddwyn unigolynol yn cynnwys iaith sarhaus, hiliol neu rywiaethol, neu oedi afresymol cyn cynnal cwest neu cyn ymateb i ohebiaeth.

Nid oes tâl am gwyno i'r JCIO a gallwch wneud hynny ar-lein drwy fynd i wefan y JCIO yn <http://judicialconduct.judiciary.gov.uk/making-a-complaint.htm>. Mae mwy o fanylion am gwyno am grwneriaid hefyd ar gael ar y wefan.

Neu gallwch lawrlwytho ffurflen gwyno'r JCIO a'i hanfon yn ôl i'r JCIO drwy ffacs, post neu e-bost. Gallwch hefyd gwyno drwy lythyr neu e-bost. Manylion cyswllt y JCIO yw:

Y Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol  
81 - 82 Queens Building  
Royal Courts of Justice  
Strand  
Llundain WC2A 2LL  
Ffôn: 020 7073 4719  
E-bost: [inbox@jcio.gsi.gov.uk](mailto:inbox@jcio.gsi.gov.uk)  
Fax: 020 7073 4725

## 11.5 Cwyno am safon y gwasanaeth a gawsoch

Os bydd angen i chi gwyno am y ffordd y deliodd grwner neu ei staff ag ymchwiliad (er enghraifft os teimlwch nad yw'r safonau yn y llawlyfr yn cael eu cwrdd), dylech yn y lle cyntaf ysgrifennu i'r crwner a rhoi copi o'ch llythyr i'r awdurdod lleol sy'n ariannu'r gwasanaeth. Bydd swyddfa'r crwner yn gallu dweud wrthyhch pwy yw'r awdurdod lleol perthnasol, os na wyddoch.

Gallwch hefyd gwyno'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol. Os byddwch yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb, gallwch gwyno i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol drwy fynd i <http://www.lgo.org.uk/making-a-complaint>, neu ffonio 0300 061 0614 neu 0845 602 1983. Neu, gallwch gwyno drwy lythyr i:

Yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol  
PO Box 4771  
Coventry CV4 0EH

Nid oes tâl am gwyno am safon gwasanaeth a gawsoch gan swyddfa'r crwner.

### **11.6 Cwyno am batholegydd sy'n cyflawni archwiliad post-mortem**

Os byddwch am gwyno am batholegydd, dylech ddweud wrth y crwner. Dylid hefyd gwneud y cwynion hyn i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Gall y GMC gymryd camau i ddileu neu gyfyngu ar hawl meddyg i ymarfer os yw'n credu bod y meddyg wedi torri canllawiau'r Cyngor yn ddifrifol neu'n barhaus. Gallwch gyflwyno cwyn ar-lein drwy fynd i [https://www.gmc-uk.org/patient\\_online\\_complaints](https://www.gmc-uk.org/patient_online_complaints). Am fwy o wybodaeth, neu os byddwch am siarad â swyddog cyngori, ffoniwch 0161 923 6602.

Dylech wneud cwyn am batholegydd ffforensig cofrestredig (gweler yr Eirfa) i'r GMC ac i'r Swyddfa Gartref. Mae manylion y Swyddfa Gartref yn <https://www.gov.uk/forensic-pathology-role-within-the-home-office>.

# ADRAN 12

## 12. Monitro safonau gwasanaeth y crwner

### 12.1 Y Prif Grwner

Y Prif Grwner sy'n gyfrifol am osod y safonau gwasanaeth y disgwylir i grwneriaid eu darparu. Y Prif Grwner sydd hefyd yn rhoi cymorth ac arweinyddiaeth farnwrol i grwneriaid ar draws Cymru a Lloegr.

Nid yw'r Prif Grwner yn ymchwilio i gwynion am grwneriaid unigol. Rhaid i'r cwynion gael eu gwneud fel a ddisgrifir yn adran 11 uchod.

Mae'r Prif Grwner yn paratoi adroddiad blynyddol ar y system grwner, sy'n cael ei gyflwyno i'r Senedd.<sup>6</sup> Pwrpas yr adroddiad yw fel bo'r cyhoedd yn ymwybodol o, ac yn deall ac yn gallu gwneud sylwadau ar y prif faterion sy'n wynebu'r system grwner.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar lefelau gwasanaeth ar draws y system a chysondeb safonau rhwng gwahanol ardaloedd crwner. Mae hefyd yn cynnwys manylion am faint o ymchwiliadau a barodd fwy na blwyddyn a gynhaliwyd, a pham eu bod yn cymryd mor hir, a hefyd pa gamau y mae'r Prif Grwner yn eu cymryd i atal unrhyw oedi diangen.

Gallai adroddiad y Prif Grwner gynnwys crynodeb o adroddiadau crwner i atal marwolaethau, a'r ymatebion i'r rhain, gan nodi'r rôl y mae'r crwner yn ei chwarae mewn amddiffyn y cyhoedd. Gallai hefyd nodi enghreifftiau o arferion da gan grwneriaid.

Hefyd, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar farwolaethau sy'n cael eu riportio i grwneriaid. Mae'r rhain yn rhoi ffigyrau ar faint o farwolaethau a ryportwyd, faint o archwiliadau post-mortem gafodd eu gorchymyn a faint o gwestau a gynhaliwyd, ac yn cael eu defnyddio i fonitro llwythi gwaith crwneriaid, faint o achosion a broseswyd a'r ganran o archwiliadau post-mortem a chwestau. Mae'r manylion yn <http://www.gov.uk/government/publications/coroners-statistics>.

---

<sup>6</sup> Bydd yr adroddiad cyntaf yn dod allan yn 2014.

## ADRAN 13

### 13. Cael mwy o wybodaeth a chymorth

#### 13.1 Sut a phryd alla i weld y dogfennau sy'n berthnasol i farwolaeth y unigolyn a fu'n annwyl i mi?

Fel 'unigolyn gyda budd' (gweler yr Eirfa) gallwch ofyn am gopïau o adroddiadau ar unrhyw archwiliad post-mortem a wnaed, ac o ddogfennau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Ni fydd swyddfa'r crwner yn codi tâl am gopïau o ddogfennau a ddarparwyd cyn neu yn ystod y cwest, ond medrant godi tâl ar ôl y cwest.

Gallwch hefyd fynd i swyddfa'r crwner i weld dogfen. Nid oes tâl am y gwasanaeth hwn.

Am resymau cyfreithiol, efallai na fydd y crwner yn gallu darparu'r holl ddogfennau neu ran o ddogfen y bydd yn bwriadu eu defnyddio yn y cwest. Bydd y crwner yn gallu egluro wrthyhych pam nad yw wedi gallu rhoi dogfen benodol i chi.

Dylech wybod y bydd peth o'r wybodaeth yn y dogfennau'n gallu achosi trallod i chi. Gallai'r dogfennau gynnwys adroddiadau manwl o'r archwiliad post-mortem a gwybodaeth am unrhyw salwch neu glefyd yr oedd yr ymadawedig yn dioddef ohonynt, na wyddech chi efallai amdanynt o'r blaen. Gallent hefyd gynnwys gwybodaeth am ffordd o fyw'r ymadawedig na wyddech chi efallai amdanynt o'r blaen.

Rhaid i bob cwest gael ei recordio a gallwch ofyn am dâp sain o'r achos ar ddisg neu mewn ffurf electronig arall, am ffi. Gallwch hefyd ofyn am drawsgriafiad er bod y ffi am hwn yn debygol o fod yn uwch nag am gopi electronig. Bydd unrhyw recordiad neu drawsgriafiad er gwybodaeth i chi'n unig, ni ddylech eu defnyddio i unrhyw bwrpas arall.

#### 13.2 Beth am gofnodion meddygol?

Mae cofnodion meddygol yn parhau i fod yn gyfrinachol ar ôl i rywun farw ond gellir eu rhyddhau i gynrychiolydd unigolynol yr ymadawedig neu i unrhyw un a allai wneud hawliad o ganlyniad i farwolaeth yr ymadawedig, gyda rhai cyfyngiadau, o dan delerau Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990.



Gellir darllen y rhain ar-lein yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/23/contents>.

Mae gan grwner hawl i ofyn am gopi o wybodaeth feddygol sy'n berthnasol ac angenrheidiol i'w ymchwiliad ef neu hi. Gellir datgelu gwybodaeth feddygol am yr ymadawedig mewn cwest os yw'n berthnasol i bwrpas y cwest ac i benderfynu beth achosodd y farwolaeth.

### **13.3 O ble alla i gael mwy o wybodaeth gyffredinol am ymchwiliadau crwner?**

Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael o GOV.UK yn <https://www.gov.uk/after-a-death>.

Ffynhonnell wybodaeth arall yw Llinell Wybodaeth Gwasanaeth Profedigaeth yr Heddlu Metropolitan (wedi'i recordio ymlaen llaw) ar (0800 032 9996, sydd ar gael ar draws y wlad 24 awr y dydd. Mae'r wybodaeth yma hefyd ar gael i'w darllen ar-lein yn <http://content.met.police.uk/Site/bereavementfamilyliaison>.

Hefyd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi gwybodaeth gyffreithiol ar beth i'w wneud pan fydd rhywun yn marw ar gael yn [www.gov.uk/after-a-death](http://www.gov.uk/after-a-death).

Os oes gennych ymholiad cyffredinol am gynnwys y llawlyfr hwn, e-bostiwch [coroners@justice.gsi.gov.uk](mailto:coroners@justice.gsi.gov.uk) neu ffoniwch 020 3334 3555 a gofyn am gael siarad gyda'r tîm Crwneiriaid, Claddu, Llosgi ac Ymholiadau.

### **13.4 Pa gymorth alla i ei gael yn ystod ymchwiliad?**

Os hoffech gael rhywun i'ch cynorthwyo drwy broses yr ymchwiliad, ac i gysylltu â swyddfa'r crwner lle bo hynny'n briodol, dylech drafod hyn gyda swyddfa'r crwner cyn gynted ag y gallwch i gytuno ar sut orau i wneud hyn. (Gallai eich cynrychiolydd fod yn rhywun fel ffrind neu berthynas, cynghorwr cyfreithiol neu'n aelod o fudiad cymorth.)

### **13.5 Beth am gymorth profedigaeth?**

Bydd swyddfa'r crwner yn gallu rhoi manylion i chi am y prif fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol, ac am grwpiau cymorth a grwpiau ffydd sy'n helpu pobl a gafodd brofedigaeth, gan gynnwys marwolaeth o ganlyniad

i ddigwyddiad neu amgylchiadau penodol, neu gyflyrau meddygol penodol. Mae'r wefan GIG Dewisiadau hefyd yn cynnwys manylion am fudiadau cymorth: <http://www.nhs.uk/livewell/bereavement/Pages/bereavement.aspx>.

Bydd y cyhoeddiad Cymorth Wrth Law (Help is at Hand) hefyd efallai'n ddefnyddiol. Llawlyfr yw hwn i bobl a gafodd brofedigaeth oherwydd hunanladdiad a marwolaeth arall sydyn a thrawmatig, ac mae ar gael ar y wefan GIG Dewisiadau yn <http://www.nhs.uk/Livewell/Suicide/Documents/Help%20is%20at%20Hand.pdf>.

# ADRAN 14

## 14. Geirfa

“Prif Grwner” yw pennaeth barnwrol y gwasanaethau crwneriaid yng Nghymru a Lloegr, sy’n gyfrifol am osod safonau gwasanaeth cenedlaethol, hyfforddi crwneriaid a’u swyddogion a staff eraill, ac am roi canllawiau iddynt. Mae gan y Prif Grwner nifer o rolau ond y prif gyfrifoldebau yw:

- rhoi cymorth a chefnogaeth, arweinyddiaeth ac arweiniad i grwneriaid yng Nghymru a Lloegr;
- gosod safonau cenedlaethol i grwneriaid;
- datblygu hyfforddiant i grwneriaid a’u staff;
- cymeradwyo penodiadau crwneriaid;
- cadw cofrestr o ymchwiliadau crwneriaid sy’n para mwy na 12 mis a chymryd camau i leihau oedi diangen;
- monitro ymchwiliadau i farwolaeth unigolynél y lluoedd arfog;
- goruchwyllo trosglwyddo achosion rhwng crwneriaid;
- cyfarwyddo crwneriaid i gynnal ymchwiliadau;
- darparu adroddiad blynyddol ar y system grwner i’r Arglwydd Ganghellor, i’w roi gerbron y Senedd; a
- casglu a monitro adroddiadau crwneriaid i awdurdodau i atal marwolaethau pellach.

“Casgliad” yw’r penderfyniad fydd y crwner (neu reithgor) yn ei gyrraedd ar ddiwedd cwest ynghylch sut y bu rhywun farw. Cofnodir y casgliad ar ffurflen ‘cofnod cwest’ sy’n cynnwys y ‘penderfyniad’ cyfreithiol a’r ‘darganfyddiadau’ (gweler isod). Gallai gynnwys un o’r casgliadau ‘ffurflen fer’ canlynol: damwain neu anffawd; cysylltiedig ag alcohol / cyffuriau; afiechyd diwydiannol; lladd yn gyfreithlon / anghyfreithlon; achosion naturiol; damwain ar y ffordd; marw-anedig; neu hunanladdiad. Gellir rhoi casgliad agored os nad oes digon o dystiolaeth i’r crwner neu’r rheithgor fod yn gallu cyrraedd un o’r casgliadau eraill. Weithiau bydd y crwner neu’r rheithgor yn cofnodi casgliad ‘naratif’ mwy manwl ynghylch y farwolaeth.

**“Swyddfa’r Crwner”** yw unrhyw aelod o swyddfa’r crwner sy’n ymchwilio i’r farwolaeth. Gallai fod y crwner, crwner ardal, crwner cynorthwyol, swyddog y crwner neu unrhyw aelod o staff arall yn y swyddfa. Mae hefyd yn cynnwys swyddog y crwner neu aelod arall o’r staff a leolir mewn adeilad gwahanol i adeilad y crwner y maent yn ei gefnogi.

**“Penderfyniad”** yw’r penderfyniad (a gyrhaeddir gan y crwner neu’r rheithgor) ynghylch pwy oedd y unigolyn a fu farw a sut, pryd a lle y bu farw (fel sy’n ofynnol o dan adrannau 5 a 10 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

**“Darganfyddiadau”** yw manylion am farwolaeth a sefydlir gan y crwner fel y gellir cofrestru’r farwolaeth (o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953).

**“Archwiliad post-mortem fforensig”** yw archwiliad a gyflawnir gan batholegydd fforensig cofrestredig y Swyddfa Gartref i gynorthwyo ymchwiliad i farwolaethau treisgar neu amheus. Mae’r patholegydd yn gweithio mewn practis grŵp rhanbarthol sy’n annibynnol i’r heddlu, crwneriaid a’r Swyddfa Gartref. Gallent fod yn hunangyflogedig neu wedi eu cyflogi gan ysbyty prifysgol neu ymddiriedolaeth ysbyty.

**“Hysbysu”** yw rhoi gwybodaeth drwy daflen, llythyr, e-bost, galwad ffôn, drwy wefan neu wyneb yn wyneb.

**“Cwest”** neu **“Gwrandawriad cwest”** iyw ymchwiliad i ganfod ffeithiau mewn llys (neu adeilad arall) a gynhelir gan grwner i sefydlu pwy a fu farw a sut, lle a phryd y bu farw’r unigolyn. Mae’n rhan o ymchwiliad y crwner. Nid yw cwest yn sefydlu unrhyw fater o atebolrwydd troseddol neu sifil. Nid yw’n ceisio beio rhywun na chanfod bai rhwng pobl neu sefydliadau.

**“Unigolyn gyda budd”** yw fel y diffinnir yn adran 47(2) Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 fel a ganlyn:

- gŵr neu wraig, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, nain neu daid, ŵyr neu wyres, plentyn i frawd neu chwaer, llys-dad, llysfam, hanner brawd neu hanner chwaer;

- cynrychiolydd unigolynol yr ymadawedig;
- archwiliwr meddygol sy'n ymarfer swyddogaethau'n ymwneud â marwolaeth yr ymadawedig;
- rhywun a fyddai'n elwa o bolisi yswiriant bywyd ar yr ymadawedig;
- cwmni yswiriant gyda pholisi yswiriant bywyd wedi'i gofrestru ar yr ymadawedig;
- unigolyn a allai, drwy weithred neu anweithred, fod wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth, neu lle gallai un o'u staff neu asiant fod wedi gwneud hynny;
- cynrychiolydd undeb yr oedd yr ymadawedig yn perthyn iddo pan fu farw (os achoswyd y farwolaeth efallai gan anaf a achoswyd pan oedd y unigolyn yn gyflogedig, neu oherwydd afiechyd diwydiannol);
- unigolyn wedi'i benodi gan awdurdod gorfodi, neu ei gynrychiolydd;
- y prif gwnstabl (lle gallai fod trosedd o ddynladdiad wedi digwydd);
- Profost-Farsial (lle gallai fod trosedd o ddynladdiad yn y lluoedd arfog wedi digwydd);
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (lle mae'r farwolaeth yn destun ymchwiliad gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu);
- unigolyn wedi'i benodi gan un o adrannau'r Llywodraeth i fynychu'r cwest neu i gynorthwyo gyda, neu i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad; neu
- unrhyw un arall sydd, ym marn y crwner, gyda budd digonol.

**"Ymchwiliad"** yw'r broses sy'n cael ei dilyn gan y crwner i sefydlu pwy fu farw a sut, pryd a lle y bu'r unigolyn farw. Gall gynnwys archwiliad post-mortem a chwest.

**"Perthynas agosaf"** yw unigolyn sy'n cael ei adnabod gan y crwner neu swyddfa'r crwner i weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer derbyn gwybodaeth.

**"Canolfan gadw arall gan y wladwriaeth"** yw rhywle lle cedwir pobl dan orfod gan awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/section/6>), er enghraifft pobl mewn sefydliad neu ysbyty iechyd meddwl neu ganolfan i fewnfudwyr.

**“Patholegydd”** yw gweithiwr meddygol proffesiynol sy’n arbenigo mewn rhoi diagnosis o afiechyd ar ôl marwolaeth a nodi achosion marwolaeth. Y patholegydd sy’n cyflawni archwiliadau post-mortem.

**“Archwiliad post-mortem”** yw archwiliad meddygol manwl o’r corff sy’n digwydd ar ôl marwolaeth ac sy’n cael ei wneud fel arfer gan batholegydd. Pwrpas yr archwiliad post-mortem yw sefydlu’r achos meddygol dros y farwolaeth.

**“Adolygiad cyn-cwest”** yw gwrandawriad (cyhoeddus fel arfer) y gallai’r crwner ei gynnal cyn y cwest i benderfynu ar faterion fel sgôp a dyddiad y cwest, a pha dystion a thystiolaeth y mae ef neu hi’n bwriadu eu galw a’u defnyddio. Gallai’r crwner hefyd nodi beth mae sydd ei angen arno ef neu hi i orffen paratoi ar gyfer cwest.

**“Tyst”** yw rhywun sy’n rhoi tystiolaeth mewn cwest, neu y darllenir eu datganiad, a hynny dan lw neu drwy gadarnhau, i sefydlu pwy oedd yr ymadawedig a sut, pryd a lle y bu farw.

**“Diwrnod gwaith”** yw unrhyw ddiwrnod, ac eithrio gŵyl banc benodedig, rhwng dydd Llun a dydd Gwener.

# ADRAN 15

## 15. Eich nodiadau

Gallai fod yn fuddiol i chi ddefnyddio'r adran yma i nodi rhai neu'r holl fanylion ar y tudalennau canlynol.

### A) Gwybodaeth am y unigolyn a fu farw – er mwyn cofrestru'r farwolaeth

Gan ddibynnu a fydd ymchwiliad y crwner yn arwain at gwest, bydd angen yr wybodaeth ganlynol arnoch chi neu'r crwner, er mwyn gallu cofrestru'r farwolaeth.

Cyfenw:

Enwau Cyntaf:

Enw cyn priodi:

Unrhyw enwau blaenorol eraill (e.e. os priododd ferch fwy nag unwaith):

Unrhyw enwau eraill (e.e. yr enw a ddefnyddiwyd gan bawb, er yn wahanol efallai i'r enw ffurfiol):

Dyddiad a lleoliad geni (tref a sir yng Nghymru / Lloegr neu wlad os dramor):

Dyddiad a lleoliad marw:

Cyfeiriad arferol:

Statws priodasol:

Swydd (neu swydd flaenorol os wedi ymddeol):

Enw / cyfeiriad / swydd y gŵr / gwraig neu bartner sifil (os yw'n dal i fod yn fyw) neu enw a swydd (os wedi marw):

Rhif Yswiriant Gwladol:

Rhif Yswiriant Gwladol unrhyw wŵr / gwraig neu bartner sifil sy'n dal i fod yn fyw:

**B) Gwybodaeth arall am yr unigolyn a fu farw, a allai fod yn ddefnyddiol**

Enw a manylion cyswllt y meddyg ysbyty:

Enw a manylion cyswllt y meddyg teulu:



Hanes meddygol a chyflogaeth a allai fod yn berthnasol:

**C) Manylion Swyddfa'r Crwner**

Enw cyswllt:

Rhif ffôn:

Rhif ffacs:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad post:

Gwybodaeth arall am Swyddfa'r Crwner:

## **Cwestiynau i'w gofyn i'r crwner a gwybodaeth i'w rhoi iddo / iddi**

Gallwch ddefnyddio'r lle hwn i nodi unrhyw gwestiynau sydd gennych am y farwolaeth; neu wybodaeth y credwch y dylai'r crwner gael gwybod amdani.

D) Cysylltu gyda Swyddfa'r Crwner

Dyddiad / Amser	Enw'r person y cysylltwyd â nhw	Nodyn o'r sgwrs / e-bost / llythyr / cyfarfod

<b>Dyddiad / Amser</b>	<b>Enw'r person y cysylltwyd â nhw</b>	<b>Nodyn o'r sgwrs / e-bost / llythyr / cyfarfod</b>

**E) Archwiliad post-mortem (gweler adrannau 4 a 5 yn y llawlyfr hwn)**

Canlyniad yr archwiliad post-mortem:

Canlyniadau unrhyw brofion i ddilyn:

**F) Os nad oes angen cwest, apwyntiad gyda'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau (gweler Adran 3 y llawlyfr hwn)**

Dyddiad / amser:

Cyfeiriad:

Y cyfeirif a roddwyd i chi neu'r rhif ffôn / ffurflen Dweud Unwaith ar y we (lle bo'n berthnasol, gweler Adran 6 y llawlyfr hwn):

Dyddiad y ffurflen Dweud Unwaith (lle bo'n berthnasol, gweler Adran 6 y llawlyfr hwn):

**G) Y Cwest (gweler Adran 8 y llawlyfr hwn)**

Gallai nodi'r wybodaeth ganlynol fod yn ddefnyddiol i chi.

Dyddiad agor y cwest:

Dyddiad / amser / lleoliad unrhyw wrandawriad cyn-cwest:

Dyddiad / amser / lleoliad y cwest:

Pwy sy'n rhoi tystiolaeth:

Ar ddiwedd y cwest, casgliad y crwner ynghylch sut y bu farw'r person:

Unrhyw beth arall a ddywedodd y crwner neu a argymhellodd:

Manylion y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau er mwyn cael copïau o'r dystysgrif marwolaeth



Gallwch ofyn am ragor o gopïau o'r ddogfen hon  
drwy anfon e-bost at [coroners@justice.gsi.gov.uk](mailto:coroners@justice.gsi.gov.uk)  
neu ffonio 020 3334 3555

